

2022

FI AC
AARON
RAMSEY

Manon
Steffan
Ros

Y Lolfa

Tir na n-Og

GWOBRAU • AWARDS

Pecyn Cynllun Cysgodi

Gwobrau Tir na n-Og 2022

Categori Uwchradd

HANES YN Y TIR

Edrych am Hanes Cymru



Elin Jones

Y PUMP

Cyfes o bum nofel am bum ffrind gan bump awdur a phum cyd-awdur ifanc.




"Cyfes o nofelau ganest, ffres, llawn caried, sy'n grymuso lleisiau cwbl newydd mewn llenyddiaeth Gymraeg."
MANON STEFFAN ROS

Y Lolfa

Cynnwys

Llyfrau'r Rhestr Fer	2
Siarad Cyfrolau – Cwestiynau a Phwyntiau Trafod	3
Adnabod Awdur	
Manon Steffan Ros	4
Elin Jones	6
Elgan Rhys	8
Y Beirniaid	9
Sylwadau'r Beirniaid	10
Tudalen Nodiadau	13
Cardiau Pleidleisio	14



Fi ac Aaron Ramsey
Manon Steffan Ros (Y Lolfa)

Ffuglen

Mae perthynas Sam a Mo fel gêm bêl-droed – yn uchafbwyntiau bendigedig, ac yn isafbwyntiau siomedig, torcalonnus. Ond drwy bêl-droed, mae'r ddau yn dod i ddeall ei gilydd, a dod i werthfawrogi mai gwahanol gryfderau a chyd-chwarae sy'n creu tîm go iawn.

[Fideo #CaruDarlenn Manon Steffan Ros](#)



Hanes yn y Tir
Elin Jones (Gwasg Carreg Gwalch)

Ffeithiol


Pwy oedd y bobl gyntaf oll i fyw yng Nghymru? Pam fod Glyndŵr mor bwysig i'r Cymry? Beth oedd rhan Cymru yn y fasnach gaethweision? Pa ddylanwad gafodd y môr ar ein hanes? Cewch atebion i'r cwestiynau hyn a llawer mwy yn y llyfr sy'n dangos bos olion hanes Cymru i'w gweld hyd heddiw.



Y Pump
Gol. Elgan Rhys (Y Lolfa)

Ffuglen

Mae llyfrau Y Pump yn dilyn criw o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Llwyd, wrth iddynt ddarganfod y pŵer sydd gan eu harallrwydd pan maen nhw'n dod at ei gilydd fel cymuned. Gyda safbwyntiau unigryw Tim, Tami, Aniq, Robyn a Cat yn ein tywys, down i adnabod realiti cymhleth bod yn berson ifanc ar yr ymylon heddiw.

[Y Pump ar am.cymru](#)






Cwestiynau a Phwyntiau Trafod

- Beth fwynheuoich chi am y llyfr?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Beth wnaethoch chi ddim mwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Beth hoffech chi newid am y llyfr a pham? Sut baset chi'n ei newid?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Pa gwestiynau oedd gyda chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Pa gwestiynau sydd gyda chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Yn eich barn chi, fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio ar y stori? Ym mha ffordd?
- Ydych chi'n credu bod teitl y stori'n gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fydddech chi'n galw'r llyfr?
- Beth yw eich barn chi ar glawr y llyfr?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Beth yw eich barn chi ar y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo?
- Petai tri chopi o'r llyfr gyda chi i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?

Manon Steffan Ros



Tudalen 4



Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr? Nofel am bêl-droed ydi *Fi ac Aaron Ramsey*, ond dwi ddim yn meddwl bod rhaid i rywun fod yn ffans o bêl-droed er mwyn ei darllen hi, achos mae hi hefyd am deuluoedd a ffrindiau a be' sy'n digwydd pan fod pethau'n digwydd newid eich bywyd bob dydd chi. Mae'n nofel eithaf dwys ond mae ganddo rannau ysgafn a hwyliog hefyd.

Sut profiad oedd ysgrifennu'r llyfr? Profiad od iawn oedd sgwennu'r nofel yma, gan fod 'na fersiwn arall wedi bodoli cyn yr un yma! Ro'n i wedi sgwennu nofel i gyd-fynd efo Euros 2020, am fachgen yn mynd i weld y

gemau, ond yna digwyddodd Covid, cafodd yr Euros eu gohirio, a bu'n rhaid i mi ddileu pob gair o'r nofel honno. Do'n i ddim yn hapus iawn am hynny ar y pryd! Ond dwi'n meddwl fod y fersiwn yma'n well nofel a dweud y gwir, ac mi wnes i wir fwynhau'r profiad o sgwennu.

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Ges i 'ngeni yn Rhiwlas, pentref bach yn y tir uchel yn ymyl Bethesda.

Ble aethoch chi i'r ysgol? Ysgol Gynradd Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen, a dwi'n ddiolchgar iawn 'mod i wedi cael mynd i ysgolion mor wych.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i'n hoffi'r rhan fwyaf o bethau am yr ysgol – gweld fy ffrindiau, y gwaith darllen a 'sgwennu, a'r holl hwyl oeddwn i'n ei gael! Ond do'n i ddim yn hoff iawn o wersi ymarfer corff na mathemateg (sy'n drueni, achos dwi'n mwynhau'r rheiny rŵan.)

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Awdur! Ro'n i'n caru llyfrau erioed, ac yn licio meddwl am straeon bach fy hun, ond doeddwn i ddim yn meddwl fod bod yn awdur yn job go iawn. Dwi'n ddiolchgar iawn iawn bob dydd 'mod i'n awdur erbyn hyn, y job ora' erioed!

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Roedd gen i athrawes wych iawn ym mlynnyddoedd 5 a 6, sef Gwenno Jones, ac roedd y llyfrau roedd hi'n eu darllen i ni wastad yn dal fy nychymyg. Dwi'n benodol yn cofio *O'r Tywyllwch* gan Mair Wynn Hughes ac *Iron Man* gan Ted Hughes. Ond dwi'n meddwl mai fy hoff lyfr pan oeddwn i'n blentyn ydi fy hoff lyfr i hyd heddiw, *Boy* gan Roald Dahl. Dwi'n meddwl y byd o'r llyfr yna.

Beth yw eich diddordebau?

Dwi wrth fy modd yn darllen, wrth gwrs, ond dwi'n licio gwylio pethau ar y teledu hefyd, yn aml ryw rwtsh ar

Manon Steffan Ros

FI AC
AARON
RAMSEY

Manon
Steffan
Ros

Tudalen 5

YouTube! Mae coginio'n ddiddordeb mawr gen i hefyd, a phêl-droed. Dwi'n ffan mawr o LFC ac yn licio mynd i Anfield pan ga'i gyfle!

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Cerdded! Dwi wrth fy modd yn mynd am dro ar benwythnos, ac yn aml dwi'n cael syniadau am straeon wrth grwydro'r mynyddoedd neu goedwigoedd. Mae fy meibion yn fy ngwneud i'n hapus iawn iawn hefyd. Maen nhw'n gwmni mor dda, yn ddigri ac yn ddifyr, a dwi'n mwynhau sgwrsio efo nhw am eu bywydau a'r pethau sydd ar eu meddyliau nhw.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Annhegwch. Os oes 'na bobol sydd ddim yn cael eu trin yn iawn, neu fod pobol yn cael eu trin yn wahanol i'w gilydd. Ond dwi ddim yn dda iawn am fod yn flin, dwi'n llawer mwy tebygol o fod yn drist na gwylltio.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu? Dwi ddim yn cofio peidio meddwl am sgwennu i ddweud y gwir! Mae 'na straeon wedi bod yn fy mhen i erioed. Ond dwi'n meddwl 'mod i wedi dechrau meddwl o ddifri am sgwennu straeon i lawr mewn llyfr tan i fi gael plant, am 'mod i eisiau sgwennu pethau iddyn nhw.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Bob man! Yn aml iawn wrth gerdded, neu o sgwrsiau dwi'n eu cael efo

pobol, neu o bodlediadau neu raglenni radio dwi'n gwrando arnyn nhw. Dydi cael y syniad ddim yn broblem, mae gen i ormod! Y tric ydi penderfynu pa rai fydd yn gweithio fel llyfr.

Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Dwi'n licio sgwennu am bobol ifanc, achos dwi'n meddwl fod o'n gyfnod diddorol, cyffrous ond anodd iawn mewn bywyd. Mae disgwyl i bobol ifanc ymddwyn yn aeddfed fel oedolion, ond does ganddyn nhw mo'r un rhyddid ag oedolion. Mae hynny'n teimlo braidd yn annheg i mi weithiau!

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Cofiwch fod pob awdur yn gweithio'n wahanol i'w gilydd, a does 'na ddim ffordd anghywir o adrodd stori. Mae rhai awduron yn gwneud cynllun pendant cyn sgwennu gair, a rhai eraill, fel fi, yn dechrau sgwennu heb syniad yn y byd beth fydd yn digwydd yn y llyfr. Peidiwch â phoeni am bethau felly. A mwynhewch!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur? Y peth gorau ydi'r ffaith 'mod i'n gwneud storis i fyny drwy'r dydd, bob dydd! Y peth gwaethaf ydi 'mod i'n mynd braidd yn obsesiynol am waith ac felly weithiau'n aros i fyny tan yr oriau mân yn sgwennu ... ac wedyn fel cadach y diwrnod wedyn!

Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod? *Boy* gan Roald Dahl ac *O'r Tywyllwch* gan Mair Wynn Hughes

Hoff gymeriad o lyfr? Mae'n anodd iawn dewis ond dwi'n edmygu Efa o gyfres y Melanai gan Bethan Gwanas yn fawr

Hoff le? Amhosib dewis! Mae 'na un llecyn yn y mynyddoedd uwchben Ffestiniog lle ges i syniad ar gyfer fy llyfr nesa', felly mae fy meddwl i'n fannu'n aml iawn y dyddiau hyn

Hoff fwyd? Bounties, madarch a bresych. Dim efo'i gilydd!

Hoff ffilm/rhaglen deledu? Jurassic Park

Hoff air? Trugaredd

Superpower o ddewis? Dwi'n meddwl 'swn i wir yn mwynhau'r teimlad o allu hedfan

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Twitter a TikTok

Beth sy'n gwneud i chi wenu? Jôcs gwael Dad

Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol? Bod yn awdur YDI fy swydd ddelfrydol ond fel arall, 'swn i'n licio bod yn hanesydd

Top tip i ddarpar awduron SGWENNWCH!



Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr? Llyfr ar gyfer plant oedd hwn i fod yn wreiddiol. Ysgrifennai e ar gais fy nghyfnither Jospheine, oedd yn 9 mlwydd oed ar y pryd, ac eisiau llyfr am hanes Cymru gyda digon o drais ynddo a digon o sylw i hanes menywod. Roedd sicrhau y cyntaf yn haws o lawer na dod o hyd i'r ail. Ces i'r syniad o dynnu sylw'r darllenydd at y ôl mae ein hanes wedi ei adael ar ein tirwedd. O 'mhrofiad i, mae hanes eu cynefin yn diddori plant, ac yn gymorth i ddatblygu dealltwriaeth o gronoleg – mae'r cysyniad o gynefin hefyd yn ganolog i gwricwlwm newydd Cymru.

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Cefais fy ngeni yng Nghaerdydd, a'm magu yn Ystrad Mynach.

Ble aethoch chi i'r ysgol? I ysgol gynradd Ystrad Mynach, ac yna i Ysgol Lewis i Ferched.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ddim llawer o atgofion gen i o'r ysgol gynradd, ond doeddwn i ddim yn hoffi'r ysgol ramadeg o gwbl. Roedd ethos Seisnig yr ysgol yn gwbl annerbyniol i fi, ac nid oedd llawer o olwg gyda fi ar wybodaeth, gallu na phroffesiynoldeb yr athrawon. Rwy'n cofio dod adre o'r ysgol yn fy nagrau ar brynhawn Gwener. Profiad anodd iawn i 'mam, fu'n athrawes yn yr ysgol honno ei hun, yn ogystal â disgybl – a phrif ddisgybl hefyd – cyn hynny. Roedd dal nifer o ffrindiau gyda hi ar y staff...

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Doedd dim syniad gyda fi o'r hyn roeddwn i am ei wneud, ond roeddwn i'n gwbl glir a phendant am un peth: fyddwn i fyth yn mynd yn athrawes.

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? *A Child's Day through the Ages* gan Dorothy Margaret Stuart (1941), mae gen i o hyd.

Beth yw eich diddordebau? Nawr – darllen, coginio, garddio, ysgrifennu, cerdded. Yn blentyn – darllen.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Creulondeb i greaduriaid di-amddiffyn, a hefyd pobl sy'n medru siarad Cymraeg ond yn dewis peidio. Ni all iaith a diwylliant Cymru amddiffyn eu hun – rhaid i bob un ohonon ni sy'n eu caru eu diogelu.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu? Rwy wedi bod yn ysgrifennu rhywbeth ar hyd fy oes – traethodau yn yr ysgol a'r brifysgol, adroddiadau a chynlluniau gwaith pan yn dysgu, taflenni gweithgareddau ac adroddiadau pan yn gweithio



yn yr Amgueddfa Genedlaethol, a phentyrtau o adroddiadau o bob math pan yn gweithio i Awdurdod Cwricwlwm, Cymwysterau ac Asesu Cymru, yr Adran Addysg a chyrrff eraill dros y blynyddoedd. Nawr – darnau bob mis i'm papur bro lleol, Cwmni .

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Blynyddoedd o ymddiddori mewn hanes a dysgu'r pwnc.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Hanes menywod; barddoniaeth fel ffynhonnell hanesyddol; hanes cymdeithasol a newidiadau natur cymdeithas.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Jyst i roi cynnig arni, a gweld a ydych yn cael hwyl wrth ysgrifennu – a gweld wedyn a oes unrhyw un sy'n mwynhau darllen eich gwaith.

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur? Dwi ddim yn ystyried fy hun yn awdur. Dyma rywbeth annisgwyl sydd wedi digwydd i fi ar ddiwedd fy oes, wrth i fi chwilio am bethau difyr i lenwi'r amser.

Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod? *Child's Day through the Ages* gan Dorothy Margaret Stuart

Hoff gymeriad o lyfr? Gormod o ddewis!

Hoff ffilm/rhaglen deledu? Dwi ddim yn gwylio teledu bellach, ond rwy'n cofio mwynhau cyfres o'r enw "*Connections*" hanner canrif yn ôl. Roedd yn olrhain y cysylltiadau annisgwyl arweiniodd at ddyfeisiadau allweddol o bwysig, megis y cyfrifiadur.

Hoff air? "Shitan" – edrych yn rhyfedd, ond dyna ynganiad y Wenhwyseg o'r gair "sidan", a oedd yn air anwes ar yr aelwyd pan oeddwn yn blentyn.



Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Dwi ddim yn defnyddio yr un ohonynt.

Beth sy'n gwneud i chi wenu? Pob math o jôcs plentynnaidd, ond yn enwedig rhai sydd yn chwarae'n glyfar ar eiriau.

Swydd tase chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol? Jiw, jiw, rwy'n 77 mlwydd oed – hen bryd i fi roi'r gorau i feddwl am swyddi. Ond cefais fy swydd ddelfrydol yn 1987 – cael bod yn swyddog hanes ac archaeoleg yn adran addysg yr Amgueddfa Genedlaethol.


Elgan Rhys

Tudalen 8




Elgan Rhys

Cafodd Elgan ei fagu ym Mhwillheli ac mae'n byw yng Nghaerdydd erbyn hyn. Mae'n gweithio yn bennaf ym maes theatr fel awdur, perfformiwr a chyfarwyddwr. Ei rôl fel awdur, rheolwr creadigol a golygydd Y Pump yw ei brosiect cyhoeddi cyntaf.




Mared Roberts

Mae Mared Roberts yn dod o ardal Ceinewydd, Ceredigion. Mae ganddi radd mewn Ffrangeg a Sbaeneg o Brifysgol Caerdydd ac mae bellach yn gyfieithydd. Dyma'i nofel gyntaf.




Marged Elen Wiliam

Yn wreiddiol o Fangor, mae Marged Elen Wiliam bellach yn byw yng Nghaerdydd cyfnodau yn byw ac astudio Llundain a Chaergrawnt. Yn ddiweddar, cwblhaodd radd MPhil mewn Astudiaethau De Asiaidd. Mae'n gweithio fel swyddog polisi ac yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser sbâr yn sgwennu neu'n synfyfrio.



Iestyn Tyne

Daw Iestyn Tyne o Lŷn yn wreiddiol, ond mae bellach yn byw yng Nghaernarfon. Mae'n un o olygyddion Cyhoeddiadau'r Stamp, ac mae wedi cyhoeddi dwy gyfrol o farddoniaeth. Dyma'i nofel gyntaf.



Megan Angharad Hunter

Mae Megan Angharad Hunter yn dod o Benygroes. Dyffryn Nantlle, ac yn astudio Cymraeg ac Athroniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn 2020, enillodd Ysgoloriaeth Awdur Newydd Llenyddiaeth Cymru cyn cyhoeddi tu ôl i'r awyr, ei nofel gyntaf i bobl ifanc.

Tomos Jones

Mae Tomos yn dod o Gaerdydd ac mae'n astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Dyma'r nofel gyntaf mae wedi cyd-awdure.

Ceri-Anne Gatehouse

Mae Ceri-Anne Gatehouse yn ysgrifennwr ac yn fardd. Ar hyn o bryd mae'n dilyn cwrs MA Diwydiannau Diwylliannol a Chreadigol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n falch iawn o weithio ar nofel sy'n rhoi cynrychiolaeth i bobl ifanc sy'n cael eu tangynrychioli.

Mahum Umer

Mae Mahum Umer yn Bacistani trydedd genhedlaeth a anwyd yng Nghymru, ac mae'n falch o'i gwreiddiau Pacistanaid a Chymreig. Mae'n astudio Cymraeg ac yn gobeithio defnyddio ei phrofiadau i ddod ag amrywiaeth i lenyddiaeth a'r cyfryngau, gan ddechrau gydag Anig, ei phrofiad cyntaf o weithio ar nofel.

Leo Drayton

Mae Leo Drayton yn fachgen traws o Gaerdydd. Ar ôl gadael yr ysgol aeth i wirfoddoli yng Nghambodia cyn mynd i'r brifysgol. Dyma'r nofel gyntaf iddo weithio arni ac mae'n hoff o ysgrifennu barddoniaeth.

Masie Awen

Mae Masie Awen yn 18 mlwydd oed ac yn dod o Sir Benfro. Mae'n astudio'r celfyddydau perfformio ac yn caru pob math o gelfyddyd. Cat yw'r nofel gyntaf iddi weithio arni ond mae wedi bod yn sgwennu barddoniaeth a straeon byrion ers blynnyddoedd.



Alun Horan

Cynhyrchydd teledu a chadeirydd y panel beirniadu

Yn blentyn roeddwn i'n dwlu ar ddarllen a hanes, ac yn

naturiol, felly, brenin tŷ ni oedd T Llew Jones. Dwi'n dal i gofio'r wefr o ddarllen ei lyfrau, a sylweddoli bod pethau mawr, diddorol wedi digwydd fan hyn yng Nghymru, ac nid dim ond yn Lloegr.

Dwi'n edrych ymlaen yn fawr iawn i fod yn feirniad Tir na n-Og eto eleni – mae'r wobr yn rhoi llwyfan holl bwysig i ddathlu awduron a llyfrau plant yn yr iaith Gymraeg. Gyda thair o ferched oed cynradd yn y tŷ, mae beirniadu'r wobr hefyd yn gyfle i roi'r teitlau amrywiol gerbron y gynulleidfa darged!



Morgan Dafydd

Sylfaenydd gwefan Sôn am Lyfra

A bod yn hollol onest, doeddwn i ddim yn

ddarllenwyd mawr pan oeddwn i'n ifanc, ond roeddwn i'n mwynhau edrych ar lyfrau ffeithiol. Erbyn hyn dwi'n meddwl ei bod hi'n hynod o bwysig fod plant yn dewis y llyfrau iawn iddyn nhw ar gyfer darllen er pleser.

Mae wir yn ffrainc cael fy ngwahodd i fod yn feirniad ar gyfer gwobr mor bwysig â Gwobr Tir na n-Og. Mae'n ffordd wych o roi cyhoeddusrwydd i lyfrau newydd yn ogystal â dod â thipyn o sylw i'r byd llenyddiaeth plant ehangach yng Nghymru.



Sara Yassine

Cyn-athrawes

Dwi wastad wedi bod yn hoff o ddarllen ac roedd gen i ddychymyg byw fel plentyn

– rhywbeth a oedd yn bendant yn gysylltiedig â'r holl ddarllen. Os ydych chi'n dewis y llyfrau cywir, gallwch ddod yn gaeth iddyn nhw.

Mae'n ffrainc, cael bod yn rhan o'r panel eleni. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at weld beth sydd ar gael i blant heddiw, a hefyd gweld yr hyn y collais allan arno – er, dwi'n siŵr byddai i'n mwynhau darllen lot ohonyn nhw fel oedolyn!




Ceri Griffith

Myfyriwr MA mewn Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Dwi wedi bod wrth fy modd yn darllen ers pan oeddwn yn blentyn bach; yn aml byddai pentwr o lyfrau'n codi wrth ochr fy ngwely gan nad oedd digon o le ar y silff.

Fel aelod o'r panel beirniadu dwi'n edrych ymlaen at ddarllen yr ystod eang o destunau! Mae'r gwobrau hyn yn hollbwysig er mwyn hybu llenyddiaeth i blant a phobl ifanc yn y Gymraeg, yn enwedig wrth annog rhagor o awduron i gyflwyno testunau amrywiol a difyr.

Dyma nofel gyfoes a gafaelgar sy'n cyflwyno cymeriadau real o gig a gwaed sy'n berthnasol i ddarllenwyr ifanc heddiw.



Mae tad Sam yn cymeriad hynod o ddiddorol ac effeithiol. Mae e'n llawer mwy cyffyrddus yn siarad Saesneg na'r Gymraeg. Yn ystod y nofel mae'r tad yn troedio llwybr tebyg i Aaron Ramsey, sydd bellach yn cofleidio'r iaith ar ôl blynyddoedd o beidio â'i siarad – mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb.

Roedden ni'n hoff iawn o'r diwedd glo. Dydy e ddim yn gyfan gwbl hapus, ac felly'n pwysleisio nad yw'r byd yn berffaith ond mae modd goresgyn problemau wrth weithio fel tîm.

Mawredd y gyfrol hardd hon
yw symlrwydd y cyflwyniad a'r
ieithwedd, sy'n gwneud hanes
cymhleth yn hygyrch.

Yma, dydy hanes Cymru ddim
yn cael ei gyflwyno o fewn
cyd-destun Prydeinig. Mae pum mil
o flynyddoedd o Hanes Cymru wedi'u
gwreiddio mewn pobl a llefydd.




Mae menywod yn cael sylw haeddiannol
yn y llyfr hwn a chawn glywed am rai amlwg
fel Catrin o Ferain i rai llai adnabyddus ond
hollol anhygoel fel Miriam Kate Williams.

Roedd hi'n braf cael
cymaint o luniau yn y llyfr
er mwyn dylunio'r
cyfnodau amrywiol.

Dyma gasgliad o straeon heriol
ac arbrofol sy'n cydbblethu i greu
un cyfanwaith ardderchog.

Beth sy'n gwneud y straeon
yma'n wahanol ac yn arbennig o
berthnasol yw'r cyd-weithio rhwng
y cyd-awduron, ac mae'r holl
gymeriadau, eu sefyllfaoedd
a'u rhyngberthynas yn
teimlo'n real iawn.




Cafwyd trafodaeth ddwys a ddylid ymdrin
â'r llyfrau fel 5 nofel ar wahân neu fel cyfanwaith. Roedd
rhai ar y panel yn credu byddai *Robyn* yn sefyll ar ben ei hun
ac yn ddigon da i gyrraedd y rhestr fer. Ond yn y pendraw
roedden ni'n gytûn fod *Y Pump* yn gryfach fel un cyfanwaith,
gan fod cymaint o gyd-blethu rhwng y llyfrau.

Tudalen Nodiadau


Tudalen 13

Defnyddiwch y dudalen yma ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech chi ysgrifennu am y llyfrau. Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.

*Llungopiŵch y dudalen
yma i bob adolygwr.*









Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2022, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau yn eich barn chi. Rhwch X yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

Fi ac Aaron Ramsey

☐

Hanes yn y Tir

☐

Y Pump

☐

Fi ac Aaron Ramsey

☐

Hanes yn y Tir

☐

Y Pump

☐

Fi ac Aaron Ramsey

☐

Hanes yn y Tir

☐

Y Pump

☐



2022

Tir na n-Og

GWOBRAU • AWARDS

Beth am rannu eich profiad
cysgodi ar y cyfryngau
cymdeithasol?

Cofiwch dagio ni:
@LlyfrDaFabBooks
a defnyddiwch yr hashnodau:
#CaruDarllen
#TNNO2022
#CysgodiTNNO2022

#CaruDarllen